@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

## YFORY - Parêd Santes Dwynwen

Yfory (dydd Sadwrn y 27ain o Ionawr) cynhelir **Parêd a Thwmpath Dawns Santes Dwynwen** sydd wedi'i drefnu gan Gyngor Tref Aberystwyth. Mae'r digwyddiad am ddim, gyda'r parêd yn gadael am 2yp o dop y dref ger Neuadd y Farchnad. Bydd criw o'r ysgol yn cyd-gerdded, mae croeso i chi ymuno gyda ni. Cliciwch yma i weld y poster.

## Eisteddfod Ysgol

Llongyfarchiadau i'r chwe disgybl Blwyddyn 6 sydd wedi eu hethol yn gapteiniaid y tai yn yr Eisteddfod Ysgol eleni:

Tŷ Arthur — Alaw B a Llifon J
Tŷ Caradog — Ruby P a Herbie H
Tŷ Dewi — Erin R a Twm E

**Beth sy'n digwydd a phryd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 5ed o Chwefror | Rhagbrofion Canu a Llefaru | Pawb |
| Dydd Mawrth | 6ed o Chwefror | Rhagbrofion Offerynnol | Bl.4-6 |
| Dydd Iau | 8fed o Chwefror | Awr o Eisteddfod | Pawb (rhwng 2 a 3 o'r gloch) |
| Dydd Gwener | 9fed o Chwefror | 8:45 EISTEDDFOD YSGOL | Pawb (plant Meithrin prynhawn i fynychu yn y bore) |

- Bydd y cystadlaethau llên a chelf yn cael eu beirniadu yn ystod yr wythnos hefyd, gyda chyhoeddiadau'r canlyniadau ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
- Yn y rhagbrofion canu a llefaru bydd y beirniaid yn dewis yr un gorau o bob tŷ i fod ar y llwyfan o'r Meithrin i Flwyddyn 2, a'r tri gorau o unrhyw dŷ i fod ar y llwyfan o flynyddoedd 3 – 6. Bydd tri wrth gefn rhag ofn fydd salwch ar y diwrnod.

Hoffwn eich hysbysu hefyd y **bydd angen pecyn bwyd i ginio ar eich plentyn ar ddiwrnod yr Eisteddfod Ysgol**.

## Eisteddfod yr Urdd, Cylch Aberystwyth

Mae'r trefnwyr yn gofyn os oes diddordeb gan gwmnïau i noddi rhaglen yr Eisteddfod Gylch yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau ar Chwefror 22ain? Pris yr hysbyseb yw £25 am chwarter dudalen, neu £50 am hanner tudalen.
Os oes gennych ddiddordeb anfonwch eich hysbyseb erbyn Ionawr 31ain os gwelwch yn dda, ar ffurf jpeg, png neu pdf os yn bosib at helen.williams4@ceredigion.gov.uk neu meinirjames@urdd.org

## Bag2School



Diolch yn fawr i chi i gyd sydd wedi anfon bagiau Bag2School llawn dillad i mewn i'r ysgol. Os ydych dal heb wneud cofiwch fod angen dychwelyd y bag erbyn y dyddiad casglu sef dydd Mawrth nesaf - y 30ain o Ionawr.
Does dim rhaid i chi ddefnyddio bag arbennig y cynllun – bydd defnyddio bag ailgylchu y Cyngor yn iawn.

## Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

Bydd llythyr yn cael ei rannu gyda rhieni a gwarcheidwaid blynyddoedd 5 a 6 heddiw am **daith breswyl i Wersyll yr Urdd Glan-llyn ar Fai 20fed – 22ain 2024**. Pob blwyddyn bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn mynychu un o Wersylloedd yr Urdd am dridiau. Llynedd bûm yng Ngwersyll Llangrannog, eleni tro Glan-llyn yw hi. Cliciwch yma i ddysgu mwy am Wersyll Glan-llyn.

## Blwyddyn 2 i Eglwys Llanbadarn

Bydd Blwyddyn 2 yn ymweld ag Eglwys Llanbadarn ar fore dydd Mercher 31ain o Ionawr. Bydd angen cot law ac esgidiau addas ar gyfer cerdded draw i'r pentref. Byddant yn ôl yn yr ysgol erbyn amser cinio.

**Y Gymraeg**
Rydym yn parhau yr wythnos hon i'ch denu i fyd cerddoriaeth Gymraeg wrth i ni nesáu at Ddydd Miwsig Cymru (9$^{fed}$ o Chwefror). Mae cymaint o fandiau cyfoes gwych ar hyn o bryd, ac mae un band yn enwedig yn ffefryn gyda ni fel ysgol gan fod dau o'r aelodau yn gyn-ddisgyblion yma – MELLT!
Pa ganeuon a bandiau fyddai athrawon y Meithrin – Blwyddyn 2 yn eu hargymell i chi wrando arnynt tybed?



Miss Nia Wyn
Chwarae'n Troi'n Chwerw gan Band Pres Llareggub



Mrs Nia Jones
Ni'n Beilo Nawr gan y Welsh Whisperer



Miss Caryl Davies
Cwîn gan Gwilym



Mr Aled Morgan
Dawnsia gan Fleur de Lys



Mrs Anna Davies Jones
Tŷ ar y Mynydd gan Maharishi



Miss Gaenor Jones
Waka Waka Cymru gan Tinty & The Bucket Hats



Miss Rhian Davies
Dwi'n Gymro Dwi'n Gymraes gan Rimbojam



Mrs Llinos Jarman Jones
Harbwr Diogel gan Elin Fflur

Cafwyd disgo arbennig yn yr ysgol ddoe, diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu.

Os hoffech glywed y rhestr chwarae cliciwch ar y ddolen yma (bydd angen fod cyfrif Spotify gyda chi i'w agor)




**Calendr Hanner Tymor**
Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**
Sylwch fod dyddiadau pwysig Eisteddfodau'r Urdd wedi eu nodi ar waelod y Calendr Hanner Tymor.
Y dyddiadau ar gyfer y Nosweithiau Rhieni ar gyfer y tymor hwn yw dydd Llun y 18$^{fed}$ a dydd Mawrth y 19$^{eg}$ o fis Mawrth 2024.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**26/01/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

### *TOMORROW - Santes Dwynwen's Parade*

*Tomorrow (Saturday the 27th of January) the Santes Dwynwen Parade and Twmpath (keilidh) which has been organised by Aberystwyth Town Council will be held. The event is free, with the parade leaving at 2pm from the top of the town nearby Market Hall. We will be walking as a school – you are welcome to join us.* [Click here to see the poster].

### *School Eisteddfod*

*Congratulations to the six pupils from Year 6 who have been voted house captains for this year's School Eisteddfod:*

| | |
|---|---|
| *Tŷ Arthur* | *Alaw B and Llifon J* |
| *Tŷ Caradog* | *Ruby P and Herbie H* |
| *Tŷ Dewi* | *Erin R and Twm E* |

**_What's happening and when?_**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Monday* | *5th February* | *Singing and reciting prelims* | *Everyone* |
| *Tuesday* | *6th February* | *Instrumental prelims* | *Yrs.4-6* |
| *Thursday* | *8th February* | *An hour of Eisteddfod* | *Everyone (from 2-3 o'clock)* |
| *Friday* | *9th February* | *8:45 SCHOOL EISTEDDFOD* | *Everyone (Afternoon Meithrin pupils to attend in the morning)* |

- *The literature and art competitions will also be judged during the week, with the announcements of the results on the day of the Eisteddfod.*
- *In the singing and reciting prelims the judges will choose one from each house to be on stage from Nursery to Year 2, and the best three from any house to be on stage from years 3 – 6. There will also be three in reserve in case of illness on the day.*

*I would also like to inform you that your child will need a packed lunch on the day of the School Eisteddfod.*

### *Aberystwyth Area Urdd Eisteddfod*

*The organisers are asking if businesses are interested in sponsoring the programme of the Aberystwyth Area Urdd Eisteddfod in the Great Hall, Arts Centre on February 22nd? The price of the advert is £25 for a quarter page, or £50 for a half page. If you are interested please send your advert by January 31st, in jpeg, png or pdf if possible to helen.williams4@ceredigion.gov.uk or meinirjames@urdd.org*

### *Bag2School*

*A big thank you to all of you who have sent Bag2School bags full of clothes into the school. If you still haven't remember that the bag needs to be returned by the collection date which is next Tuesday - the 30th of January. You don't have to use the scheme's special bag - using the Council's recycling bag will be fine.*



### *Glan-llyn Urdd Residential Centre*

*A letter will be shared with parents and guardians of years 5 and 6 today about a residential trip to the Urdd Camp Glan-llyn on May 20th - 22nd 2024. Every year pupils in years 5 and 6 attend one of the Urdd Camps for three days. Last year we were at Gwersyll Llangrannog, this year we'll be visiting Glan-llyn.* [Click here] *to learn more about Gwersyll Glan-llyn.*

### *Year 2 to Llanbadarn Church*

*Year 2 will visit Llanbadarn Church on the morning of Wednesday 31st January. Children will need a raincoat and suitable footwear for walking over to the village please. We will be back at school by lunchtime.*

***The Welsh language***

*We are continuing with the theme of Welsh music this week as we approach Welsh Music Day (9th February). There are so many great contemporary bands at the moment, and one band in particular which is a favourite with us as a school due to two of its members being former pupils here – MELLT!*

*Which songs and bands would Meithrin – Year 2 teachers recommend you listen to?*



Miss Nia Wyn
Chwarae'n Troi'n Chwerw gan Band Pres Llareggub



Mrs Nia Jones
Ni'n Beilo Nawr gan y Welsh Whisperer



Miss Caryl Davies
Cwîn gan Gwilym



Mr Aled Morgan
Dawnsia gan Fleur de Lys



Mrs Anna Davies Jones
Tŷ ar y Mynydd gan Maharishi



Miss Gaenor Jones
Waka Waka Cymru gan Tinty & The Bucket Hats



Miss Rhian Davies
Dwi'n Gymro Dwi'n Gymraes gan Rimbojam



Mrs Llinos Jarman Jones
Harbwr Diogel gan Elin Fflur

*There was a special disco at school yesterday, thanks to the School Council for organising.*

*If you would like to hear the playlist click on this link (you will need to have a Spotify account to open)*




***Half Term Calendar***

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates next half term***

*Please note that the important dates of the Urdd's Eisteddfodau are indicated at the bottom of the Half Term Calendar.*
*The dates for the Parents' Evenings this term are Monday 18th and Tuesday 19th of March 2024.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***26/01/2024***

www.ysgolgymraeg.cymru